Annwyl Aelodau,

cc Staff Grŵp a Staff Cymorth

**CRYNODEB O GYFARFOD Y BWRDD TALIADAU A GYNHALIWYD AR 6 GORFFENNAF 2023**

Cyfarfu Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ddydd Iau 6 Gorffennaf, yn dilyn cyfarfodydd gyda’r Grŵp Cynrychiolwyr Staff Cymorth a digwyddiad ymgysylltu gyda’r Aelodau a Staff Cymorth ar 5 Gorffennaf.

Hoffwn ddiolch i'r Aelodau a'r staff a roddodd o'u hamser i gwrdd â'r Bwrdd ar 5 a 6 Gorffennaf ac roeddem yn mawr werthfawrogi'n fawr eich barn a'ch awgrymiadau ar gyfer gwaith y Bwrdd yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd yn awyddus i barhau i ymgysylltu a cwrdd â’r Aelodau a staff cymorth, a bydd yn trefnu cyfarfodydd pellach yn yr hydref, gan gynnwys ymweliadau â swyddfeydd etholaethol yr Aelodau maes o law. Mae rhagor o wybodaeth am waith y Bwrdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma, ac mae ein rhaglen waith strategol ar gyfer gweddill y tymor hwn ar gael yma.

Mae’r llythyr hwn yn rhoi crynodeb o drafodaethau a phenderfyniadau’r Bwrdd. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Bwrdd, gyda’r crynodebau o gyfarfodydd blaenorol.

**Adolygiad thematig o’r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol**

Fel rhan o’i raglen waith strategol ar gyfer y Seithfed Senedd, mae’r Bwrdd newydd ddechrau adolygiad o’r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol. Cafodd y Bwrdd grynodeb o hanes a diben y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol a chymariaethau â’r cyllid a ddarperir i bleidiau/grwpiau mewn deddfwrfeydd eraill.

Cytunodd y Bwrdd i adolygu egwyddorion a diben y Lwfans mewn cyfarfod yn y dyfodol a hefyd trafod cydbwysedd y cymorth sydd ar gael i’r Aelodau drwy eu swyddfeydd unigol eu hunain, Swyddfeydd Grŵp a Chomisiwn y Senedd.

Cytunodd y Bwrdd i ymgysylltu â’r Grwpiau Gwleidyddol yn y Senedd yn ystod yr hydref fel rhan o’i adolygiad o’r Lwfans.

**Cyfathrebu ac ymgysylltu**

Trafododd y Bwrdd ei strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu, gan ganolbwyntio'n benodol ar ei waith ymgysylltu mewnol â rhanddeiliaid. Er ei fod yn fodlon ar y cyfan â'i waith ymgysylltu presennol, nododd y Bwrdd yr angen i estyn allan ymhellach at staff cymorth y tu allan i ardal

Caerdydd, a gofynnodd i Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd ymgysylltu â Phenaethiaid Staff ar y ffordd orau o gyflawni'r nod hwn.

Nododd y Bwrdd yr angen i ystyried gwaith ymgysylltu Comisiwn y Senedd o ran diwygio’r Senedd wrth iddo gynllunio’i weithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori ei hun.

**Taliadau Cyd-gadeiryddion Pwyllgor Diben Arbennig ar gyfer Cymru ar Ymchwiliad Covid-19**

Trafododd y Bwrdd wybodaeth am sefydlu’r Pwyllgor Covid a goblygiadau cyd-gadeiryddion i’r Pwyllgor, sef trefniant newydd i bwyllgorau’r Senedd, fel rhan o drafodaeth ar benderfynu ar y cyflog ychwanegol i’w dalu i’r cyd-gadeiryddion. Cytunodd y Bwrdd fod angen rhagor o wybodaeth am y protocol cyd-gadeirio a oedd yn cael ei ddatblygu a rhaglen waith y Pwyllgor er mwyn llywio penderfyniad y Bwrdd.

Nododd y Bwrdd hefyd fwriad y Senedd i sefydlu pwyllgor newydd i graffu ar ddeddfwriaeth diwygio’r Senedd, ac y byddai angen gwneud penderfyniad ar gyflog cadeirydd y pwyllgor hwnnw maes o law.

**Adolygiad o’r Polisi Urddas a Pharch**

Trafododd y Bwrdd ohebiaeth a gafwyd gan y Prif Weithredwr a Chlerc ynghylch adolygiad y Comisiwn o'r Polisi Urddas a Pharch. Cytunodd y Bwrdd i ystyried goblygiadau canfyddiadau’r adolygiad o’r Polisi Urddas a Pharch ar ei bolisïau ei hun, fel yr argymhellwyd i’r Bwrdd gan Gomisiwn y Senedd, er enghraifft y Polisi Cwyno a’r Polisi Disgyblu.

**Rhaglen waith a chynllunio cyllidebol**

Adolygodd y Bwrdd gynnydd yn erbyn ei raglen waith strategol a thrafododd y gofynion adnoddau ar gyfer ei waith adolygu thematig yn y flwyddyn ariannol nesaf. Cytunodd y Bwrdd i hysbysu'r Comisiwn cyn gynted â phosibl am unrhyw ofynion ariannu ychwanegol i helpu i lywio gwaith cynllunio cyllidebol y Comisiwn ar gyfer 2024-25.

**Gwariant ar lety preswyl**

Trafododd y Bwrdd wybodaeth ynghylch costau uwch ar gyfer gwestai yng Nghaerdydd pan gynhelir digwyddiadau mawr yn y ddinas ac effaith hyn ar fforddiadwyedd arosiadau mewn westy i’r Aelodau sy'n byw yn yr ardal ganolradd. Caiff y mater hwn ei archwilio fel rhan o adolygiad thematig y Bwrdd o Daliadau a Chymorth Personol yr Aelodau, a fydd yn cychwyn yn ddiweddarach eleni.

**Llywodraethu'r Bwrdd**

Trafododd a derbyniodd y Bwrdd newidiadau i'w Siarter ar 'Egwyddorion Llywodraethu a Chanllawiau ar Gynnal Busnes' yng ngoleuni argymhellion yr adolygiad canol tymor o effeithiolrwydd y Bwrdd a gwblhawyd yn ddiweddar. Bydd y Siarter, sy'n egluro'r berthynas rhwng y Bwrdd a Chomisiwn y Senedd, yn cael ei rannu â'r Comisiwn i'w adolygu ac yna'n cael ei gyhoeddi ar wefan y Bwrdd.

**Cadeirydd newydd y Bwrdd Pensiwn**

Nododd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y broses sy'n mynd rhagddi o recriwtio Cadeirydd newydd Ymddiriedolwyr y Bwrdd Pensiwn a chytunodd i ofyn am gyfarfod â'r Cadeirydd newydd ar ôl gwneud y penodiad.

Cewch y wybodaeth ddiweddaraf, fel hyn, ar ôl pob cyfarfod o'r Bwrdd. Yn y cyfamser, os hoffech godi materion gyda mi neu'r Bwrdd, mae croeso i chi gysylltu drwy anfon e-bost at taliadau@senedd.cymru.

Yn gywir,

**Dr Elizabeth Haywood**

**Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.